

## Grŵp Cyswllt Prosiect (GCP) Adeiladu Wylfa Newydd

### COFNODION

Cofnodion y cyfarfod o Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mawrth 22ain Mai 2012 am 6.00pm yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa).

**Yn bresennol (yn nhrefn yr wyddor yn ôl sefydliad):**

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Agewell Amlwch	Vic	Tolhurst
Agewell Amlwch	Delyth	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn	Aled Morris	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn	Y Cynghorydd J. V	Owen
Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn	Y Cynghorydd Bob	Parry
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Ynys Môn	Arwel	Williams
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gwynne Morris	Jones
Cadeirydd – GCP Wylfa	Dennis	Evans
Cyngor Ar Bopeth	Karen	Garrod
Rhaglen Ynys Ynni	Linda Wyn	Jones
Rhaglen Ynys Ynni	Sasha Wynn	Davies
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
Cyngor Tref Caerdybi	Clifford	Everett
Cyngor Sir Ynys Môn	William Thomas	Hughes
Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn	Enid	Williams
Canolfan Byd Gwaith	Damian	Hamilton
Jones Peckover	Matthew	Holmberg
Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn	Y Cynghorydd Bryan	Owen
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Allan	Kerry
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymuned Llaneilian	Helen	Woodcock
Cyngor Cymuned Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymuned Llanfaethlu	John Arfon	Jones
Cyngor Cymuned Llanfaethlu	Kenneth P	Hughes
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	John	Jukes
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	Elwyn	Schofield
Magnox	John Idris	Jones
Cyngor Cymuned Mechell	Thomas H	Jones

Menter Mechell	Jac	Jones
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Will	Edwards
Academi Sgiliau Cenedlaethol	Ali	Hunt
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Richard	Williams
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Cynrychiolydd o Gyngor Conwy	Dr Stuart	Anderson
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna M	Jones
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Trevor	Jones
Dŵr Cymru	Angela	Meadows
Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa	Tom	Conway
Ysgol Syr Thomas Jones	Jean	Jones
Ysgol Syr Thomas Jones	Callum	Gaskell
Ysgol Syr Thomas Jones	Gemma	Roebuck
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris
<b>Aelodau o'r cyhoedd</b>		
	Paul	Bracegirdle
	Michael	Dodds
	Derek	Gadson
	John Cadwaladr	Jones
	Kimberley	Jones
	Peter	Jones
	Lisa	Morgan
	Mel	O'Hara
	Tim	Poole
	Steve	Roberts
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Cyngor Cymuned Gwledig Amlwch	Gareth Winston	Roberts
Cyngor Sir Ynys Môn	Dylan	Williams
Cyngor Sir Ynys Môn	Clive	McGregor

Cyngor Sir Ynys Môn	Brian	Jones
Pennaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn	Carys	Edwards
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Cyngor Ar Bopeth	Jackie	Blackwell
Coleg Menai	Wyn	Thomas
Undeb Amaethwyr Cymru	Heidi	Williams
Aelod Seneddol Ynys Môn	Albert	Owen
Aelod Cynulliad Cenedlaethol Ynys Môn	Ieuan Wyn	Jones
Cyngor Cymuned Llanfachraeth a Bodffordd	Derek	Owen
Aelod Seneddol Conwy	Guto	Bebb
Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd	Elfyn	Llwyd
Aelod Cynulliad Cenedlaethol dros Ogledd Cymru	Mark	Isherwood
ASE Gogledd Cymru	Dr Kay	Swinburne
ASE Gogledd Cymru	Nathan	Gill
ASE Gogledd Cymru	Jill	Evans
Twristiaeth Gogledd Cymru	Esther	Roberts
Anabledd Taran	Aled	Roberts
Cymdeithas Amaethyddol Môn	John	Chamberlain
Clwb Ffermwyr Ifanc	Ellen	Jones
Ysgol Syr Thomas Jones	Aaron	Bailey
Ysgol Uwchradd David Hughes	Dr Brian	Jones

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi'i nodi'n anghywir, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com).

## 1 GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD – DENNIS EVANS

Diolchodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), i bawb am fynychu a dywedodd bod peth amser wedi mynd heibio ers y cyfarfod diwethaf. Dywedodd hefyd mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y GCP ers y

cyhoeddiad gan riant gwmniau Horizon na fyddent bellach yn buddsoddi mewn pŵer niwclear yn y DU. Mae'r cyfranddalwyr yn gweithio ar hyn o bryd ar ddod o hyd i berchnogion newydd posibl.

## 2 YMDDIHEURIADAU A CHOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Gofynnodd Tom Conway (TC), Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa, i John Idris Jones (JIJ), Magnox, ymhelaethu ar ei bwynt ynghylch datgomisiynu, a wnaed yn ystod y GCP blaenorol ar Chwefror 16<sup>eg</sup>. Dywedodd TC bod cyllid a neilltuwyd ar gyfer datgomisiynu yn y 1960au wedi'i ailneilltuo wrth breifateiddio yn y 1980au. Roedd JIJ yn cytuno mai dyma ddigwyddodd.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (16<sup>eg</sup> Chwefror 2012) yn gofnod manwl gywir o'r digwyddiadau a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

## 3 Y Newyddion Diweddaraf am y Prosiect – Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu'r Prosiect, ac Alan Smith, Pennaeth Datblygu'r Safle, Pŵer Niwclear Horizon

- Diolchodd Charlie Tasker (CT) i bawb am eu cefnogaeth ac am fynychu'r GCP.
- *29<sup>ain</sup> Mawrth Cyhoeddiad Cyfranddalwyr* – Eglurodd CT bod penderfyniad y cwmniau cyfranddalwyr, E.ON UK ac RWE npower, i beidio â pharhau â'u cynlluniau i fuddsoddi mewn pŵer niwclear yn y DU wedi dod o ganlyniad i adolygiadau strategol ar wahân a gynhaliwyd gan y busnesau. Dywedodd CT bod eu penderfyniadau'n gysylltiedig â phwysau masnachol arbennig sy'n unigryw i'w busnesau unigol hwy, heb fod ag unrhyw gysylltiad â gallu neu fodel busnes Pŵer Niwclear Horizon. Pwysleisiodd CT bod Horizon, a'i safleoedd yn Wylfa ac Oldbury, yn parhau'n safleoedd rhagorol ar gyfer adeiladau niwclear newydd.
- Eglurodd CT bod y cyfranddalwyr yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddod o hyd i berchnogion newydd ar gyfer Horizon. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos â'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sy'n parhau'n gefnogol i gyd. Fel rhan o hyn, mae gwaith ar droed i baratoi'r busnes ar gyfer y broses diwydrwydd dyladwy, gan gasglu data i gefnogi gwerthu Horizon. Unwaith bydd yr wybodaeth hon yn barod, bydd llyfryn gwerthiant yn cael ei ddatblygu.
- Dywedodd CT bod Horizon hefyd yn gweithio'n fewnol i ddatgan anghenion hyfforddi'r staff ac ychwanegu gwerth at y broses werthu. Dywedodd CT y byddai Charles Hendry yn ymweld â Horizon ddiwedd mis Mai er mwyn cyfarfod cynrychiolwyr Horizon ac amlinellu ei gefnogaeth barhaus i'r prosiect.
- *Gweithgarwch Datblygu'r Safle* – Eglurodd Alan Smith (AS) bod dwy ffrwd weithgarwch ar droed ar hyn o bryd. Un ffrwd yw'r gweithgareddau sy'n hanfodol i redeg Horizon, fel llywodraethu corfforedig, cyfathrebu â rhanddeiliaid a gweithio gyda staff er mwyn ailneilltuo adnoddau i ddiwallu anghenion eraill. Mae'r ffrwd arall yn cynnwys y gweithgareddau sy'n ofynnol er mwyn gwella'r broses werthu. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r arolygon sy'n weddill, casglu data a datblygu deunydd sy'n gallu cefnogi'r broses diwydrwydd dyladwy.
- Dywedodd AS ei bod yn bwysig bod Horizon yn parhau'n weladwy ac yn rhan o'r gymuned leol o hyd. Ceir nifer o weithgareddau a buddsoddiadau sy'n barhaus yn y maes hwn. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £90,000 i Gynllun Prentisiaeth Cwmni Prentis Menai Coleg Menai, adnewyddu swyddfa newydd Horizon yn Wylfa a chynnal Cymorthfeydd Agored bob mis. Byddai Horizon yn dosbarthu cylchlythyr ar ddiwedd mis Mai hefyd.

- Eglurodd AS bod yr astudiaethau topograffigol ar hyd yr A5025 wedi'u cwblhau bron. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn helpu i fireinio cynigion Horizon ar gyfer gwelliannau i ffyrdd a hefyd yn helpu Horizon i ddatblygu strategaethau trafndiaeth a thraffig, fel cynlluniau parcio a theithio.
- Eglurodd AS bod cynnwys rhanddeiliaid yn parhau'n flaenoriaeth i Horizon. Fis Mai, bydd Horizon yn cyfarfod Llywodraeth Cymru i drafod proses Strategaeth y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a'i chynnydd. Dywedodd bod y gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol ac i'w chroesawu'n fawr.
- Dywedodd AS hefyd bod cytundeb cysylltiad y Grid Cenedlaethol yn ei le o hyd, a bod gwaith y Grid Cenedlaethol i gryfhau'r rhwydwaith trosglwyddo presennol yn parhau. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y prosiect gael ei gynnal yn nes ymlaen eleni. Dywedodd AS bod y ffaith bod y prosiect hwn yn parhau yn helpu i ychwanegu gwerth at Horizon yn llygaid y perchnogion newydd posibl.
- *Cadwyn Gyflenwi* – Eglurodd AS bod Horizon (gyda chefnogaeth Magnox) wedi gweithio'n helaeth er mwyn datblygu rhestr cadwyn gyflenwi a gwybodaeth am fusnesau yn yr ardal leol. Mae Horizon yn awyddus i gynnal y perthnasoedd hyn a byddant yn parhau mewn cyswllt â'r busnesau hynny y sefydlwyd perthnasoedd â hwy eisoes.

***Nodyn Wedi'r Cyfarfod:*** *Gall busnesau fynegi eu diddordeb mewn gweithio gyda Horizon drwy anfon e-bost i [suppliers@horizonnuclearpower.com](mailto:suppliers@horizonnuclearpower.com) gyda manylion am eu darpariaeth fusnes.*

- *Diddordeb gwleidyddol* – Dywedodd CT ac AS eto bod y gefnogaeth wleidyddol yn parhau'n eithriadol uchel a bod y ddwy Lywodraeth yn gwneud popeth o fewn eu gallu i baratoi'r ffordd ar gyfer buddsoddiad newydd. Eglurodd CT hefyd bod yr achos dros niwclear newydd yn parhau yr un fath a bod y DU angen 60GW o allu cynhyrchu newydd erbyn 2025. Mae hon yn her enfawr a cheir cyfle arwyddocaol am fuddsoddiad a chyfleoedd gwaith newydd.

### **Holi ac Ateb**

- Dywedodd DE bod unrhyw ddatblygwr angen sicrwydd ynghylch costau a phrisiau. Mae pŵer niwclear yn unigryw o ran bod mwyafrif y costau yn rhai 'ymlaen llaw' a'r enillion ariannol yn rhai tymor hir dros oes y prosiect. Mae'n bwysig felly bod datblygwr yn gallu deall yn llawn beth fydd ei enillion ar ei fuddsoddiad ymhen 20 neu 30 mlynedd. Mae cefnogaeth y Llywodraeth yn bwysig yn y maes hwn ac yn helpu i sicrhau bod datblygiadau pŵer niwclear yn gallu parhau, a datblygwyr yn gallu gwneud penderfyniadau buddsoddi yn seiliedig ar safbwyntiau tymor hir.
- Dywedodd Tom Conway (TC) ei fod yn ansicr a oedd ewyllys wleidyddol yn bodoli i ddatblygu pŵer niwclear newydd. Dywedodd TC bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft gwreiddiol ar gyfer Pŵer Niwclear yn 2009 yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i 25,000MW o allu niwclear newydd erbyn 2025 a 35,000MW o ynni gwynt. O ystyried y sefyllfa wleidyddol yn ymwneud â niwclear newydd, gofynnodd TC i CT ofyn i Charles Hendry a yw'r ewyllys wleidyddol i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn dal i fodoli.
  - Dywedodd CT y gellid codi'r mater gyda Mr Hendry, ond bod y Llywodraeth yn parhau'n gefnogwr allweddol i'r prosiect ac i bŵer niwclear yn gyffredinol. Mae pŵer niwclear yn rhan bwysig o'r gymysgedd o ynni, ac mewn gwell sefyllfa i

ddarparu pŵer dibynadwy a chyson o gymharu â thechnolegau cynhyrchu fel glo, a fydd angen systemau cipio a storio carbon yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth sicrhau ei bod yn cefnogi niwclear er mwyn diwallu'r galw am ynni.

- Diolchodd TC i CT a dywedodd eto ei fod yn pryderu bod gallu'r rhaglen bresennol yn awgrymu mai dim ond 15,000MW ellid ei gynhyrchu yn realistig. Mynegodd bryder hefyd nad oes gan sector peirianeg y DU brofiad i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd.
- Gofynnodd Allan Kerry (AK), Cyngor Cymuned Llanbadrig, a fyddai'n rhaid i'r adweithydd Toshiba sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd gan y cyfryngau fynd drwy'r broses Asesiad Dyluniad Generig, pe bai consortiwm o dan arweiniad Toshiba yn buddsoddi yn Horizon?
  - Atebodd AS drwy ddweud bod Toshiba yn berchen ar Westinghouse, sef un allan o'r ddau gonsortiwym sydd â thechnolegau sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd drwy'r broses Asesiad Dyluniad Generig (ADG). Er bod Toshiba wedi dylunio nifer o fathau o adweithyddion, nid yw'n debygol y byddai'n cynnig unrhyw dechnoleg arall ar wahân i'r AP1000 oherwydd mae'r adweithydd hwnnw eisoes wedi cael ei asesu fel rhan o'r broses ADG gyfredol. Byddai'n rhaid i unrhyw fath newydd o adweithydd a gynigid fynd drwy'r broses ADG gyflawn a gallai hynny olygu oedi gyda'r rhaglen.
  - Gofynnodd AK a allai hyn 'ddifetha'r cytundeb' ar gyfer y rhaglen – a fyddai Toshiba/Westinghouse yn ystyried y buddsoddiad hwn fel un synhwyrol?
  - Ymatebodd CT drwy ddweud y byddai'n amhosibl i Horizon wneud sylw. Mae'r cyfranddalwyr yn rhan o'r trafodaethau hynny, ond mae dyhead brwd i weld technolegau Asesiad Dyluniad Generig yn cael eu defnyddio mewn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd Jac Jones (JJ), Menter Mechell, a oedd Horizon angen recriwtio rhagor o staff er mwyn sicrhau cymeradwyaeth reoleiddiol i'w weithrediadau gan y Llywodraeth.
  - Cadarnhaodd AS bod hyn yn gywir a dywedodd bod gan Horizon gynlluniau i recriwtio staff yn y Pencadlys yn ystod 2012 a 2013.
  - Gofynnodd JJ a fyddai'n rhaid i'r recriwtio staff yma ddigwydd cyn y gallai Horizon ddod yn brosiect y gellid ei werthu.
  - Dywedodd CT bod rhaglen recriwtio lawn yn ei lle a bod strategaeth recriwtio ar gael i ddarpar brynwyr.
- Dywedodd JJ bod y broses Asesiad Dyluniad Generig yn dibynnu ar gymeradwyaeth amodol i Ddyluniad Interim. Ni ellir rhoi'r gymeradwyaeth hon nes bod datblygwr yn fodlon buddsoddi yn un o'r ddwy dechnoleg. Gofynnodd JJ a oedd y buddsoddiad hwn yn debygol, ac o ble'r oedd yn debygol o ddod.
  - Dywedodd CT bod AREVA yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad ei adweithydd, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn Hinkley Point. Roedd y mân-newidiadau a oedd wedi'u hamlinellu gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael sylw ar hyn o bryd fel rhan o'r buddsoddiad a'r datblygiad parhaus hwn.
- Gofynnodd Thomas H Jones (THJ), Cyngor Cymuned Mechell, beth oedd y canllawiau ar gyfer prynwr newydd, ac a fydd rhaid iddo fod ag enw da ym maes datblygu pŵer niwclear?
  - Dywedodd CT bod canllawiau yn eu lle a bod y Llywodraeth yn rhan o'r gwaith o ddrافتio'r rhain. Bydd rhaid i fuddsoddwyr sy'n mynegi diddordeb fod wedi bodloni'r canllawiau hyn ac mae'n hanfodol eu bod yn gallu dangos enw da a hygredd yn y byd pŵer niwclear. Mae marchnad y DU yn cael ei monitro a'i rheoleiddio'n llym, felly mae'n rhaid i ddatblygwyr fod yn hyderus ac yn fedrus.

#### 4 Crynodeb o'r Rhaglen Ynys Ynni – Sasha Wynn Davies, Cyfarwyddwr y Rhaglen Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn

- Dywedodd Sasha Wynn Davies (SWD) bod y cyfarfod hwn o'r GCP yn gyfle pwysig i gyflwyno'r newyddion diweddaraf am y prosiect. Ei neges allweddol oedd bod popeth yn parhau ar hyn o bryd a bod y Cyngor Sir yn gweithio'n galed er mwyn cydweithredu â'r Llywodraethau yn Llundain ac yng Nghaerdydd, yn ogystal â gyda Horizon a chwmnïau cyfranddalwyr. Dywedodd SWD ei bod yn bwysig cofio mai nod y Llywodraeth yw gwneud Prydain – ac Ynys Môn – yn lle atyniadol ar gyfer buddsoddi mewn ynni.
- *Gweledigaeth yr Ynys Ynni* – Eglurodd SWD mai gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni yw sefydlu Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru fel canolfan enwog yn rhyngwladol am ragoriaeth mewn ymchwilio i gynhyrchu pŵer a'i ddatblygiad.
- Dywedodd SWD mai un o'r prif ffyrdd o gyflawni'r nod hwn oedd dod â gwahanol grwpiau sydd â diddordeb mewn datblygu'r gwaith o gynhyrchu ynni ar Ynys Môn at ei gilydd. Mae hyn yn golygu gweithio gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus, yn ogystal â phobl leol. Mae gan y Rhaglen Ynys Ynni rôl bwysig i'w chwarae mewn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl leol, a bydd hyn yn parhau.
- Er hynny, gyda chyllid ac adnoddau'r sector cyhoeddus yn brin, mae'n rhaid i'r cydweithredu a'r gefnogaeth fod yn eithriadol effeithlon er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Ynys Môn a Gogledd Cymru.
- *Creu swyddi* – Dywedodd SWD bod cynhyrchu gweithgarwch economaidd hefyd yn golygu creu swyddi gyda sgiliau i bobl leol, a bod yr Ynys Ynni yn gweithio er mwyn deall pa swyddi ellid eu creu a pha ddarpariaeth addysgol sydd rhaid ei gwneud. Mae'r Ynys Ynni yn gweithio gyda'r sector preifat a chyhoeddus er mwyn sicrhau bod digon o bobl yn dod i mewn i'r maes, fel peirianwyr a weldwyr, a bod modd canfod cyfleoedd i gadw'r bobl hyn ar Ynys Môn.
- Mae'r cyfraniad i'r Fforwm Ynys Ynni a Bwrdd Ymgynghorol yr Ynys Ynni gan Lywodraethau'r DU a Chymru, Magnox, Horizon a chyrrff eraill yn dda. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn darparu lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth i sbarduno'r rhaglen yn ei blaen. Mae llawer o arbenigedd ar Ynys Môn ar hyn o bryd.
- *Prosiectau eraill* – Eglurodd SWD bod yr Ynys Ynni yn eithriadol brysur. Mae gwaith y Grid Cenedlaethol yn barhaus a cheir cyfleoedd datblygu eraill ar hyd a lled Ynys Môn, gan gynnwys RAF Valley, Porthladd Caergybi a ffermydd gwynt ar y môr. Mae'r cynnig datblygu Tir a Llynnoedd yn bwysig hefyd a bydd yn darparu cyfleoedd twristiaeth yn y dyfodol. Mae'r rhain i gyd yn cyfleu neges gadarnhaol i bobl ifanc yr ardal.
- *Addysgu a sgiliau* – Dywedodd SWD bod John Idris Jones (JIJ) wedi bod yn arwain y Cynllun Cyflenwi a Gweithredu sy'n amlinellu sut gall Ynys Môn ymateb i gynnydd mewn cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc. Bydd mwy am hyn yn y dyfodol ac mae'r cynigion yn gwneud cynnydd da. Mae pobl ifanc yn bwysig i ddyfodol yr ynys.
- Dywedodd SWD bod Horizon yn ymateb yn dda i'r sefyllfa ac yn cyflwyno gwybodaeth gyson i bobl, er gwaetha'r ffaith bod penderfyniad cyfranddalwyr Horizon yn siomedig. Mae'r rhan fwyaf o bobl eisïau gweld y prosiect yn gwneud yn dda, felly'r neges ydi bod rhaid i ni gynnal ein ffocws ar ddatblygiadau a sicrhau bod gennym ni gynlluniau yn eu lle i gefnogi gorsaf

pŵer niwclear newydd yn Wylfa.

### **Holi ac Ateb**

- Bydd SWD yn gadael yr Ynys Ynni yn yr haf a diolchodd DE iddi am ei gwaith caled a'i chyfraniad at y rhaglen. Dywedodd DE y byddai JIJ yn arwain y Rhaglen Ynys Ynni o fis Gorffennaf ymlaen ac y bydd yn parhau â'r gwaith da a'r ymgysylltu â chyrff allweddol sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yma.
- Gofynnodd Gwynne Morris Jones (GMJ), Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDGW), beth yw safbwynt Horizon ar hyn o bryd o ran yr astudiaethau amgylcheddol a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Beth yw'r camau nesaf, a phryd bydd rhagor o wybodaeth ar gael?
  - Dywedodd AS bod yr astudiaethau cychwynol o adar ar droed ac unwaith bydd gan Horizon fwy o sicrwydd ynghylch dyfodol y prosiect, bydd astudiaethau eraill yn cael eu cychwyn. Mae'r holl astudiaethau amgylcheddol sy'n cael eu gwneud yn cael eu harwain gan y Fforwm Amgylcheddol, sy'n trafod materion allweddol a bydd yn helpu Horizon i ddatblygu strategaeth rheoli.
  - Gofynnodd GWJ am fanylion aelodau'r Fforwm Amgylcheddol.
  - Dywedodd AS bod rhestr lawn ar gael i bawb ei gweld yng ngwefan Horizon.
- Dywedodd TC ei fod yn bryderus am y drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig yn yr ardal, yn arbennig yn ardal Cemaes. Hoffai weld yr Ynys Ynni a'r Cyngor yn gweithio gyda Horizon er mwyn sicrhau bod y drafnidiaeth gyhoeddus yn gynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer pobl yn yr ardal. Dywedodd bod y gwasanaeth i Amlwch yn 'foddhaol', ond nid yw'r bysus o ardal Cemaes yn 'addas i wrpas'. Hoffai weld Horizon yn helpu i wella'r gwasanaeth.
  - Gofynnodd DE i TC drafod hyn gyda'r Cyngor ac, yn benodol, gyda'r Grŵp Trafnidiaeth, fel bod modd ei gyfeirio at y bobl briodol. Dywedodd bod ystyriaeth ofalus i drafnidiaeth yn rhan o gynigion Horizon.
  - Dywedodd Dewi Roberts Williams, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn, bod teithio cynaliadwy yn bwnc pwysig y bydd Horizon yn edrych arno. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weld y strategaeth a fyddai'n cael ei pharatoi gan Horizon maes o law.

### **5 Y newyddion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru – Gareth Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol yn yr Adran Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru**

- Dywedodd Gareth Hall (GH) bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas gadarnhaol â'r Rhaglen Ynys Ynni a Phŵer Niwclear Horizon yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prosiect yn cynnwys gweithio gyda phob adran yn Llywodraeth Cymru ac roedd yn bwysig pwysleisio ehangder y berthynas.
- Dywedodd GH bod y Prif Weinidog wedi amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i pholisi niwclear ym mis Mawrth 2012 a'i fod yn ef yn bersonol gyfrifol am ddatblygu ynni. Mae'r ddogfen bolisi '*Ynni: Newid Carbon Isel*' ar gael yng ngwefan Llywodraeth Cymru.
- Mae tri phwynt pwysig yn y ddogfen bolisi. Y cyntaf yw cydnabod bod angen pŵer niwclear mewn cymysgedd ynni carbon-isel. Yr ail yw bod angen adeiladu Wylfa newydd er mwyn cynhyrchu ynni yn y dyfodol ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Horizon, y Cyngor, yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd a chyrff eraill i gyflawni hyn. A'r drydedd agwedd yw bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y mae'r Ynys Ynni yn ei chwarae mewn gosod y

sylfeini ar gyfer datblygu ar Ynys Môn. Dywedodd ei fod yn 'beiriant sy'n gweithio'n dda' ac sy'n gallu dod â rhanddeiliaid at ei gilydd mewn rôl hwyluso.

- Dywedodd GH nad yw pŵer niwclear yn fater datganoledig yng Nghymru, ond mae'r Llywodraeth wrth law yn barod i helpu gyda chyflwyno unwaith y bydd yn gwybod beth yw'r camau nesaf. Mae'r Prif Weinidog yn gwbl gefnogol i'r prosiect ac i drafodaethau Llywodraeth y DU, a bydd yn darparu arweiniad strategol er mwyn hwyluso'r gwaith adeiladu newydd. Dywedodd GH hefyd ei bod yn bwysig nodi nad yw'r gwaith wedi arafu a bod llawer i'w wneud i bawb cysylltiedig er mwyn sicrhau bod Horizon yn brosiect y gellir ei werthu.

### **Holi ac Ateb**

- Diolchodd DE i GH am ei amser a dywedodd ei bod yn galonogol clywed cefnogaeth o'r fath.
- Dywedodd y Cyngorydd Aled Morris Jones (AMJ), Llaneilian, ei bod yn bwysig ein bod ni'n sylweddoli bod yr orsaf bresennol wedi bod yn gymydog da am flynyddoedd lawer, a bod olynedd da yn ei le iddi o bosibl. Rhaid canmol Horizon am eu gwaith ar y prosiect hyd yma, ac am y ffaith nad ydynt wedi cuddio newyddion drwg. Mae yma weithlu talentog ond dim ond mynd yn fwy fydd y bwch yn awr rhwng datgomisiynu a dechrau prosiect newydd. Mae hwn yn fater rhanbarthol, ond beth gall y Llywodraeth ei wneud i sicrhau ein bod ni'n gwarchod y bobl sydd wedi'u hyfforddi?
  - Dywedodd GH bod polisi economaidd yn mynd law yn llaw â pholisi ynni. Mae'r Llywodraeth – yn lleol ac yn genedlaethol – yn awyddus i warchod swyddi. Gellir cyflawni rhywfaint o hyn eisoes drwy waith yn Nhrawsfynydd ac ar y safle presennol yn Wylfa, ond darperir cyllid i'r rhai sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant a chefnogaeth. Er hynny, dywedodd nad yw'n gwybod eto beth yw'r camau nesaf i Horizon, ac unwaith y bydd buddsodwr wedi'i sicrhau, roedd yn disgwyl i'r prosiect adfer momentwm.

## **6 Martin Kinsey, Uwch Reolwr Prosiect, y Grid Cenedlaethol**

- Gofynnodd DE i Martin Kinsey, Uwch Reolwr Prosiect gyda'r Grid Genedlaethol, am grynodedb byr o'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect y Grid Cenedlaethol.
- Diolchodd MK i DE am y cyfle i siarad ac eglurodd bod prosiect y Grid Cenedlaethol i gysylltu gorsaf bŵer niwclear newydd yn elfen bwysig yn llygaid y rhai sy'n ystyried buddsoddiad yn y dyfodol efallai. Mae'n rhaid i Horizon ddangos bod modd cysylltu'r orsaf â'r rhwydwaith trosglwyddo er mwyn sicrhau prynwr newydd.
- Dywedodd MK bod cytundeb Horizon ar gyfer cysylltu'n parhau yn ei le ar gyfer 3.6GW o bŵer fel bod prosiect y Grid Cenedlaethol yn gallu parhau. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn cynnwys asesu opsiynau a chynnal astudiaethau cychwynnol o sut gallai'r opsiynau hyn weithio. Gallai hyn gynnwys ceblau yn y môr, ar draws y tir neu gymysgedd o'r ddau.
- Eglurodd MK bod rhanddeiliaid allweddol eisoes yn cael eu briffio ar y prosiect a bod y gwaith yn parhau i roi gwybodaeth iddynt am y broses gwneud penderfyniadau. Y cam nesaf fydd cyflwyno'r gwaith hwn i gymunedau lleol yn ystod yr ymgynghoriad, a fydd yn cael ei lansio yn nes ymlaen yn 2012. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys arddangosfeydd cyhoeddus i gymunedau a phobl leol ar Ynys Môn.
  - Dywedodd DE bod y neges yn glir iawn, sef bod y prosiect yn dal i symud yn ei flaen

- ynghyd â'r broses werthu.
- Roedd MK yn cytuno a dywedodd bod y Grid Cenedlaethol yn parhau'n ymroddedig i amserlen y rhaglen ac yn gobeithio cynnal arddangosfeydd ac ymgynghoriad eleni. Ac er bod rhaid addasu cynlluniau, roedd Horizon bob amser gam ar y blaen i'r broses, felly mae hyn yn rhoi cyfle i'r Grid Cenedlaethol eu cyrraedd.
- Gofynnodd GMJ pam fod yr 11 neu'r 12 opsiwn a oedd yn cael eu hystyried y llynedd wedi'u gostwng i ddau yn awr, heb ymgynghoriad cyhoeddus. Dywedodd GMJ ei fod yn gobeithio bod tanddwr yn parhau'n opsiwn.
  - Dywedodd MK nad yw'r Grid Cenedlaethol wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, ond bydd yn gwneud hynny eleni. Bydd hon yn broses ffurfiol ond mae ymgynghori â rhanddeiliaid bob amser wedi bod yn rhan o'r amserlen, ac mae'n cynnwys cyfarfod ag awdurdodau cynllunio, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri – ymhlith eraill. Y cam terfynol ydi ymgynghori â chymunedau.
  - Dywedodd MK hefyd bod y Grid Cenedlaethol wedi dechrau gyda thua 60 opsiwn. Gan fod y rhwydwaith yn fatrics o gysylltiadau, ceir llawer o opsiynau, ond yn ymarferol mae'n rhaid i'r prosiect roi sylw i feysydd penodol i gryfhau'r system. Hefyd, nid yw trafod 60 opsiwn am adborth yn ymarferol, felly mae'r gwaith hyd yma wedi cynnwys gostwng nifer yr opsiynau hyn cyn ymgynghori. Dywedodd MK nad yw'n bosibl trafod beth yw'r opsiynau terfynol, ond mae tanddwr yn parhau i fod yn un o'r opsiynau sy'n cael eu hasesu.
- Gofynnodd JJ a fyddai'r GCP yn dod yn gorff i drafod y Grid Cenedlaethol yn ogystal â Pŵer Niwclear Horizon.
  - Dywedodd DE mai rôl y GCP oedd trafod pob agwedd berthnasol i brosiect Horizon a bod y Grid Cenedlaethol yn rhan o'r prosiect.
- Gofynnodd Richard Williams (RW), Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a fu unrhyw gynnydd yn y trafodaethau perthnasol i'r angen am drydedd pont ar draws afon Menai.
  - Dywedodd MK y byddai'r Grid Cenedlaethol yn edrych ar bob opsiwn, ac os bydd trydedd pont yn cael ei chodi, byddai'n cael ei hystyried i'w defnyddio. Ychwanegodd mai nid y Grid Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am y penderfyniad ynghylch adeiladu trydedd pont a'i fod y tu hwnt i'w reolaeth.
- Dywedodd TC bod gan Bont Britannia ddigonedd o allu i gynnal ceblau pŵer ac y gellid ei hystyried.
  - Cytunodd MK bod y pontydd yn strwythurau digon cryf i gynnal ceblau pŵer.

**Nodyn wedi'r cyfarfod:** Bydd y cadeirydd yn gwahodd y Grid Cenedlaethol i roi cyflwyniad ar gynnydd i'r aelodau mewn cyfarfod o'r GCP yn y dyfodol, ac i roi rhagor o fanylion am yr opsiynau arfaethedig.

## 7 Unrhyw Fater Arall

- Gofynnodd Will Edwards (WE), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, a fyddai'r GCP yn cyfarfod eto yn y dyfodol?
  - Cadarnhaodd DE y bydd y GCP yn parhau i gyfarfod i drafod materion perthnasol i'r prosiect. Bydd y cofnodion yn cael eu hanfon at bawb maes o law a threfnir dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yn y ffordd arferol.

## 8 CLOI

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.40pm a diolchodd i bawb am fynychu. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gyfarfod eto yn fuan iawn.

*I gael gwybodaeth fwy cyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu ar [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac ewch i [www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)*